



# Vale School Governors' Association Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro and Governor Support Unit Cylchlythyr

## Gair gan y Cadeirydd

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi penderfynu fy mod yn berson annymunol ac nad ydynt eisiau siarad â fi. I fod yn fanylach, mae'r adran TG, neu'r system e-bost o leiaf, wedi penderfynu y dylai fy holl e-byst at bobl bwysig yng Nghyngor Bro Morgannwg, fel yr Uned Cymorth Llywodraethwyr, gael eu dychwelyd fel 'negeseuon na ellir eu dosbarthu'. Mae hyn yn digwydd hyd yn oed pan fyddaf yn ymateb i e-bost diniwed sy'n cael ei anfon ataf gan yr Uned Cymorth Llywodraethwyr. Dwi wedi bod yn dibynnu ar yr hen system ffôn. Fe ddylwn hefyd ychwanegu nad oes yr un person dwi'n cyfathrebu ag ef wedi sylwi ar unrhyw newid yn fy statws. Maen nhw i gyd dal yn hapus i dderbyn fy e-byst.

Mae hyn yn gwneud i fi feddwl am Lywodraethwyr a'u cyfraniad at TG mewn ysgolion. Ydych chi'n gwybod pa galedwedd a meddalwedd sy'n cael eu defnyddio yn eich ysgol? Oes yna Uwchgynllun? Yw popeth wedi'i ddiweddarau? Oes yna fesurau diogelu priodol ar waith? Sut ydych chi'n rhoi'r sgiliau i'r plant sydd yn eich gofal i oroesi mewn byd digidol?

Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, dwi

wedi bod eistedd i mewn fel Llywodraethwr gyda grŵp o athrawon mewn Grŵp Dysgu yn St Richard Gwyn, sydd wedi bod yn ystyried effeithiau'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol. Roedd yn ddiddorol iawn dysgu sut y gall sgiliau digidol gael eu cynnwys mewn gwersi hanes neu dechnoleg bwyd, yn yr un modd ag y mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi'i integreiddio ar draws y cwricwlwm.

Yna mae gennych chi'r broblem o roi ddiolli'r hyn sy'n wir a dilys o blith y symiau enfawr o wybodaeth sydd ar flaen ein bysedd. All eich disgyblion chi adnabod newyddion ffug?

Mae hi'n amser i Lywodraethwyr ofyn rhai cwestiynau heriol.

Byddaf yn anfon y nodyn hwn i'r Fro gan ddefnyddio cyfeiriad e-bost fy ngwraig. Dydyn nhw heb sylwi eto ei bod hi'n annymunol hefyd.

Mwynhewch egwyl yr haf.

**Dr Martin Price**  
Chair of VSGA and Vice-Chair of  
Governors, St Richard Gwyn Roman  
Catholic High School, Barry

## Rhifyn 42 Tymor yr Haf 2018

### Pwyntiau arbennig o ddi-ddordeb:

- Sefydlwyd AVAGO ym 1996 ac fe'i lanswyd o'r newydd yn 2006 fel Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro (VSGA)
- Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys 15 o lywodraethwyr etholedig, ynghyd â 2 gynrychiolydd rhieni-lywodraethwyr

### Sefydlwyd VSGA i:

- Hyrwyddo arfer gorau ym maes llywodraethu mewn ysgolion yn AALI Bro Morgannwg
- Hyrwyddo gwaith mewn partneriaeth ymhlith ysgolion a rhwng ysgolion a'r AALI
- Gweithio gyda budd-ddeiliaid er mwyn sicrhau adnoddau digonol ar gyfer ysgolion yn yr AALI
- Cynrychioli safbwyntiau'r Gymdeithas ynghylch materion sy'n ymwneud gyda llywodraethu ysgolion a rheolaeth ac adnoddau ysgolion i awdurdodau a sefydliadau perthnasol

## Ar y cyd gyda Chyngor Bro Morgannwg

### Manylion cyswllt:

**John Sparks**

Pennaeth Cymorth i Lywodraethwyr  
Ffôn: 01446 709106 Ffacs: 01446 701820  
E-bost: [JSparks@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:JSparks@valeofglamorgan.gov.uk)

**Janine Hoare**

Cynorthwydd Clerigol  
Ffôn: 01446 709107 Fax: 01446 701820  
E-bost: [JHoare@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:JHoare@valeofglamorgan.gov.uk)



Mae gan VSGA gyfeiriad e-bost y gallwch ei ddefnyddio er mwyn cysylltu â ni, sef [VSGA@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:VSGA@valeofglamorgan.gov.uk)  
Neu, gallwch gysylltu â VSGA trwy'r post:

**VSGA**  
a'r Uned Cymorth i Lywodraethwyr  
Dysgu a Sgiliau  
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton,  
Y Barri CF63 4RU

# Canllaw Arferion Da: Dull Addysg Gyfan o fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a thrais Rhywiol yng Nghymru

Mae'r canllaw hwn yn cydnabod pwysigrwydd lleoliadau addysg fel amgylcheddau lle gellir meithrin agweddau cadarnhaol at gydraddoldeb rhywiol a pherthnasau iach, parchus, drwy weithio ar sail hawliau.

Gallwch weld y ddogfen yma

## Trais Yn Erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig A Thrais Rhywiol – Canllawiau I Lywodraethwyr

Mae'r canllaw yn cynnwys nifer o gamau gweithredu y gall llywodraethwyr eu cymryd i wneud eu hysgol yn fwy diogel.

Gallwch weld y ddogfen yma.

## Aelodaeth y Pwyllgor Rheoli 2016-18

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys llywodraethwr etholedig ynghyd â'r ddau Gynrychiolydd Rhiant-Llywodraethwr (un yr un o'r sectorau cynradd ac uwchradd).

Rhif	Teitl	Blaenly thyren	Cyfenw	Ysgol
1	Mr	R	Bailey	Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Llanbedr y Fro
2	Mr	N	Craggs	Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Gwenfô
3	Mrs	H	Drew	Ysgol Gyfun y Bont-faen
4	Mrs	M	Gibbs	Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr ac Ysgol Gynradd Romilly
5	Mr	W	Hennessey	Ysgol Sant Baruc
6	Mrs	K	Kemp	Ysgol Gynradd Llancarfan
7	Mr	C	Laity	Ysgol Gynradd Tregatwg
8	Mrs	A	Males	Ysgol Gynradd Cogan ac Ysgol Gyfun Sant Cyres
9	Mrs	A	Malkin	Ysgol Gynradd Gladstone
10	Dr	M	Price	Ysgol Uwchradd Gatholig Richard Gwyn Sant
11	Mr	R	Simpson	Ysgol Gynradd y Wig a Marcroes yr Eglwys yng Nghymru
12	Mr	R	Smith	Ysgol Gynradd y Wig a Marcroes yr Eglwys yng Nghymru
13	Mr	D	Treharne	Ysgol Gynradd Llansannwyr yr Eglwys yng Nghymru ac Ysgol Gwaun-y-nant
14	Mrs	S	Williams	Ysgol Gynradd yr Holl Saint yr Eglwys yng Nghymru
15	Cllr Mr	M	Wilson	Ysgol Gynradd Victoria
PGR-Prim	Mrs	J	Lynch-Wilson	St. Athan Primary
PGR-Sec	Dr	C	Brown	Llantwit Major Comprehensive

**Gwahoddir enwau ar gyfer 2018-20 ddechrau mis Medi 2018**

## Dyddiadau Tymhorau Ysgol 2018-20

Mae dyddiadau Tymhorau Ysgol 2018-20 bellach wedi'u cadarnhau hyd at Haf 2020. Dilynwch y ddolen i weld y manylion cyflawn.

# Gweithdai Hyfforddi Athrawon 'Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth'

Elusen addysg wrth-hiliaeth yw Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth. Fe'i sefydlwyd ym 1996. Mae ein tîm o addysgwyr profiadol yn gweithio mewn ysgolion ledled y DU yn cynnal gweithdai gwrth-hiliaeth i dros 40,000 o bobl ifanc ac yn hyfforddi miloedd o athrawon.

Wele isod eu cynnig presennol i athrawon fel enghraifft o'r hyn y gellid ei gynnig, rwy'n credu y byddai'n gyfle da i ni eu helpu nhw i dreialu'r cynnig hwn o hyfforddiant penodol.

Gall ein tîm o addysgwyr ymweld â'ch ysgol i gynnal gweithdai gwrth-hiliaeth addysgiadol gydag athrawon ar ystod o bynciau.

## Amcanion y Gweithdai

- Codi ymwybyddiaeth o ganlyniadau hiliaeth a'i heffaith ar bobl ifanc.
- Ymrymuso athrawon drwy wella'u gwybodaeth a dysgu sgiliau newydd iddynt fel eu bod yn fwy hyderus wrth drafod hiliaeth gyda phobl ifanc.
- Cynnig help ymarferol a gweithgareddau ystafell ddosbarth i athrawon i herio ystrydebau a chamsyniadau cyffredin ac agweddau rhagfarnllyd yn y gymdeithas.
- Rhoi gwybodaeth i athrawon am ideoleg 'y dde eithafol' sydd ar gynydd ymhlith pobl ifanc a sut i adnabod, ymateb i ac estyn cymorth i ddisgyblion y mae'n effeithio arny'n nhw.
- Galluogi athrawon i adnabod, ymateb i, ac adrodd am ddigwyddiadau hiliol.
- Rhoi i athrawon wybodaeth, gweithgareddau dosbarth ac adnoddau i hybu cydraddoldeb yn eu hystafell ddosbarth a'r ysgol gyfan.

## Strwythur

Rydym ar hyn o bryd yn darparu hyfforddiant i athrawon gyda Phrifysgolion ledled Cymru ac rydym wedi'n cofrestru fel darparwyr hyfforddiant y Rhaglen Ddysgu Fyd-Eang yng Nghymru.

Gellir cynnal ein gweithdai hyfforddi athrawon mewn ysgolion a lleoliadau addysg eraill. Gellir dewis o blith amrywiaeth o fodiwlau a gallwn, ar gais, deilwra sesiynau i fodloni anghenion penodol.

## Arolwg i Lywodraethwyr

Mae Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth wedi gofyn i ni rannu'r ddolen yma ar gyfer arolwg i Lywodraethwyr gyda chi. <https://www.surveymonkey.co.uk/r/TR6NQ7T>

Dim ond 5 munud ddylai'r arolwg gymryd i'w gwblhau a'i nod yw mesur canfyddiadau a gwybodaeth llywodraethwyr mewn ysgolion ledled Cymru parthed hiliaeth.

Ei fwriad yw ceisio gweld a oes angen am hyfforddiant wedi ei ariannu ar wrth-hiliaeth i lywodraethwyr, fel rhan o ymagwedd ysgol gyfan ar gyfer gwaredu hiliaeth mewn ysgolion.

## Consortium canolbarth y de 6 Mehefin 2018

### Deunyddiau'r gynhadledd

Mae'r deunyddiau'r Gynhadledd Llywodraethwyr ar gael yn y Gronfa erbyn hyn.

#### *Mae'r deunyddiau'n cynnwys:*

- Cyflwyniad i'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth;
- Cwricwlwm Cymru – diweddariad i lywodraethwyr;
- Addysg yng Nghymru; Cenhadaeth ein Cenedl;
- Y Ffordd Gywir – cyflwyniad y Comisiynydd Plant;
- Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol - cyflwyniad.

# e-Etholiadau Rhiant-lywodraethwyr – Tymor yr Hydref 2018

O fis Medi 2018, caiff pob etholiad rhiant-lywodraethwr yn y dyfodol ei gynnal yn electronig er mwyn sicrhau bod adnoddau ysgolion a'r Awdurdod Lleol yn cael eu defnyddio yn y modd gorau, a bydd yn rhaid i'ch ysgol gynnal e-Etholiad yn yr Hydref.

## **Beth yw'r broses?**

Caiff hyn ei wneud yn gwbl electronig o hyn allan (ac eithrio lle nad oes yna gyfeiriadau e-bost gan rieni). Mae'r Uned Cymorth i Lywodraethwyr wedi llunio proses a bydd yn ei chynnal ar eich cyfer..

## **Beth sydd angen i'r ysgol ei gynnig i wneud i hyn weithio'n effeithiol?**

Cyn pob etholiad, bydd yr Uned Cymorth i Lywodraethwyr yn anfon adroddiad i'ch ysgol i'w gymharu â'r System Wybodaeth (SIMS) er mwyn cofnodi cyfeiriadau e-bost pob rhiant/gofalwr. Mae hyn yn gwbl allweddol er mwyn sicrhau bod cynifer â phosibl sydd yn gymwys i sefyll fel ymgeisydd ac i bleidleisio yn gwneud hynny.

## **Sut mae'r ysgol yn cysylltu â'r rhieni/gofalwyr hynny nad oes ganddi gyfeiriadau e-bost ar eu cyfer?**

Bydd angen cysylltu â'r rhain gyda chopïau caled o bapurau/amlenni fel o'r blaen, ond yr ysgol fydd yn gyfrifol am gyflenwi'r rhain, nid yr Awdurdod Lleol. Felly po fwyaf o gyfeiriadau e-bost rhieni sydd gennych, y lleiaf o gopïau caled y bydd angen i chi fynd i'r afael â nhw.

## **Mae sawl cyfeiriad e-bost rhiant/gofalwr gan rai disgyblion, oes rhaid cysylltu â phob cyfeiriad yn ystod yr etholiadau hyn?**

Nac oes, dim mwy na 2 gyfeiriad i bob disgybl. Bydd rhedeg yr adroddiad yn cofnodi cyfeiriadau e-bost y rhiant/gofalwr sydd wedi'u rhestru fel Cyfrifoldeb Rhiant (PR) 1 a 2 ar SIMS.

## **Pwy ddylai ddarparu/gadarnhau gwybodaeth ysgolion?**

Rhaid i bob ysgol nodi rywun i gadw mewn cyswllt â'r Uned Cymorth i Lywodraethwyr at ddibenion y broses e-Ethol i rieni.

## **A fydd yr Uned Cymorth i Lywodraethwyr yn llunio'r ffurflenni enwebu a'r papurau pleidleisio fel o'r blaen?**

Bydd, a chaiff y rhain eu hanfon allan yn electronig. Bydd yr Uned Cymorth i Lywodraethwyr yn rhannu copi caled o'r ffurflen enwebu gydag ysgolion, a phapur pleidleisio os bydd angen. Serch hynny, ysgolion fydd yn gyfrifol am gopïo a phrynu amlenni er mwyn cysylltu â'r rhieni hynny sydd angen copïau papur.

## **A fydd deunyddiau ar gyfer Ysgolion Cymraeg yn ddwyieithog?**

Byddant.

## **Beth sy'n digwydd os oes mwy o leoedd gwag i riant-lywodraethwyr gennym nag y mae'r tabl drosodd yn eu nodi?**

Cysylltwch â'r Uned Cymorth i Lywodraethwyr ar unwaith gan y bydd hyn yn effeithio ar y deunyddiau etholiadol.

## **Â phwy y dylwn i gysylltu os oes gennyf unrhyw ymholiadau am y broses hon?**

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Jeremy Morgan mewn e-bost i [jmorgan@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:jmorgan@valeofglamorgan.gov.uk) neu drwy ffonio 01446 709108 (llinell uniongyrchol) os oes unrhyw gwestiynau gennych am eich e-Etholiad Rhiant-lywodraethwr.

Diolch am eich cymorth wrth gyflwyno'r broses newydd hon. Rydym ni wedi ei threialu mewn nifer o ysgolion yn llwyddiannus hyd yn hyn. Rwy'n siŵr y bydd yn esblygu gydag amser wrth i fwy o ysgolion ei rhoi ar waith ond bydd adnoddau'n cael eu defnyddio'n llawer mwy effeithiol, i ysgolion ac i'r Awdurdod Lleol, o'i gymharu â'r hen ddull.

## **NODYN AM EICH DYDDIADUR**

Cynhelir y Sesiwn Ddiweddaraf ar Addysg a Gwybodaeth Briffio nesaf  
**DYDD MAWRTH 4 RHAGFYR 2018 rhwng 6 a 7.30pm**

Bydd sesiwn Her a Chefnogaeth

Cynhelir yn Ysgol Gyfun y Bont-faen ar

**DYDD MAWRTH 27 TACHWEDD 2018 rhwng 6 a 8pm**

Gweithdy Her a Chefnogaeth

*Mae'r Cyfaill Beirniadol yn un o rolau pwysicaf gwaith Llywodraethwyr, ond mae'n gallu bod yn un o'r rhai anoddaf i'w chyflawni.*

*Bydd y cwrs hwn yn archwilio'r ffyrdd gwahanol mae Llywodraethwyr yn gallu darparu Her a Chefnogaeth, trwy ddefnyddio fframwaith Estyn fel canllaw, a bydd yn darparu cymorth ymarferol ac enghreifftiau o arfer dda.*